Preswylfeydd Haf i Fyfyrwyr (arosiadau byr) — o leiaf 7 noson

# Gwybodaeth Gyffredinol

1. LLETY (Llys Cartwright)

- Mae ystafelloedd ar gael o hanner dydd, ddydd Mercher, 2 Gorffennaf 2025 tan 10.00am ddydd Mercher, 10 Medi 2025.
- Mae'r holl ystafelloedd yn rhai sengl sy'n rhannu cyfleusterau. Y cyntaf i'r felin fydd hi.
- Ni ddarperir dillad gwely, clustogau, tywelion, llestri na chyllyll a ffyrc.
- Mae ystafelloedd yn £33 y noson.
- Mae cyfradd ostyngol o £27.50 y noson ar gael ar gyfer unrhyw arhosiad dros 29 noson o hyd.
- Gellir prynu pecynnau dillad gwely (gan gynnwys tywelion) am £30 (drwy dalu â cherdyn debyd/credyd yn unig), os oes rhai ar gael.

2. CADW YSTAFELL

- Cadwch le ar-lein: https://bookaccommodation.cardiff.ac.uk/SSA2025.bnb
- Rhaid i chi gadw ystafell o leiaf ddau ddiwrnod gwaith ymlaen llaw.
- Bydd gofyn i chi dalu'r swm llawn â cherdyn debyd/credyd wrth gadw ystafell.

3. CYRRAEDD

- Gallwch chi gasglu eich allweddi o'r Dderbynfa ar ddyddiad dechrau eich arhosiad yn ystod yr oriau a ddangosir isod:
- Llys Cartwright: Dydd Llun i ddydd Gwener hanner dydd hyd at 3.00pm neu 5.00pm hyd at 10.00pm
  Stryd Daviot, Cathays, Caerdydd, CF24 4SS
- Os bydd y Dderbynfa ar gau pan fyddwch chi'n cyrraedd (gan gynnwys ar benwythnosau), ffoniwch y Tîm Diogelwch ar 029 2087 4444.
- Bydd angen i chi ddod â chadarnhad eich bod wedi cadw ystafell gyda chi.
- Bydd gofyn i chi ddangos eich cerdyn adnabod myfyriwr.

4. GADAEL

- Rhaid i chi adael eich ystafell a dychwelyd eich allweddi i'r Dderbynfa erbyn 10am ar y diwrnod gadael.
- Os byddwch chi'n dychwelyd eich allweddi ar ôl 10am ar y diwrnod gadael, codir tâl arnoch chi am aros noson ychwanegol.
- Os bydd eich amser gadael y tu allan i oriau gwaith, bydd angen i chi gysylltu â'r Dderbynfa cyn i chi adael er mwyn trafod y trefniadau gadael.
- Codir tâl am beidio â dychwelyd allweddi

5. NOSWEITHIAU YCHWANEGOL

- Os bydd angen i chi aros yn hirach, bydd yn rhaid i chi wneud cais newydd ar gyfer y nosweithiau ychwanegol (ar yr amod bod ystafell ar gael a bydd yn rhaid i chi gadw ystafell o leiaf ddau ddiwrnod gwaith ymlaen llaw ).
- Cadwch ystafell ar-lein yn https://bookaccommodation.cardiff.ac.uk/SSA2025.bnb

6. AD-DALIADAU

- Ni wneir unrhyw ad-daliadau.
- Ni chewch chi ad-daliad os byddwch chi'n gadael eich ystafell yn gynnar.